




Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Cod Ymarfer er Lles Adar Hela a Fegir at Ddibenion Helwriaeth



Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	3
Argymhellion	4
1. Tarddiad y Stoc	4
2. Gori a Deor	4
3. Archwilio a Hwsmona	5
4. Bwyd a Dŵr	6
5. Dyfeisiau Rheoli	7
6. Lletya a Chorlannu	8
7. Trin Clefydau a Chadw Cofnodion	9
8. Dal a Chludo	10
9. Paratoi ar gyfer Rhyddhau	10
Atodiad 1 – deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar adar hela	11

Rhagair

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r Cod. Ei fwriad yw esbonio diben y Cod a nodi'r ystyriaethau eang sy'n sail iddo. Yn yr un modd, nid rhan o'r Cod yw'r ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y blychau; cynhwysir hi yn hytrach er mwyn tynnu sylw at rai o'r gofynion cyfreithiol. Dylech gadw mewn cof bod y ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y Cod ac yn yr Atodiad, er ei bod yn gywir ar y dyddiad y'i cyhoeddwyd, yn agored i'w newid yn ddiweddarach.

Diben y Cod hwn yw darparu canllaw ymarferol mewn perthynas ag Adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (y Ddeddf), ynglŷn ag adar sy'n cael eu bridio a'u magu dan amodau rheoledig at y diben o'u rhyddhau i'w saethu gan helwyr, ynghyd ag adar a gedwir at ddibenion bridio. Ni fydd methiant i gydymffurfio â darpariaeth o'r Cod hwn, ynddo'i hunan, yn peri y gellir dwyn unrhyw fath o achos yn eich erbyn; ond byddai methiant i ddilyn y Cod yn ystyriaeth y gellid dibynnu arni fel un sy'n tueddu i gadarnhau atebolrwydd am dramgwydd, a gallai cydymffurfio â'r Cod dueddu i nacáu atebolrwydd o'r fath.

Nid oes deddfwriaeth benodol sy'n rheoleiddio bridio a magu adar at ddibenion helwriaeth. Rhaid i bob bridwr a magwr adar hela gydymffurfio â'r cyfreithiau sy'n berthnasol i'w weithrediadau. Mae'r Atodiad isod, nad yw'n rhan o'r Cod hwn, yn tynnu sylw at ddeddfwriaeth berthnasol arall, yn ychwanegol at y Ddeddf.

Mae Adran 4 o'r Ddeddf yn amddiffyn adar rhag dioddef yn ddiangen yn ystod y broses o gynhyrchu a magu.

Mae achosi dioddefaint diangen i anifail a warchodir (sy'n cynnwys anifail o dan reolaeth ddynol) yn dramgwydd o dan adran 4 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

Mae adran 9 o'r Ddeddf yn gwneud yn ofynnol darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion yr adar (y ddyletswydd i hyrwyddo lles neu'r 'ddyletswydd o ofal').

Mae adran 9(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

Mae person yn cyflawni tramgwydd os nad yw'n cymryd pa bynnag gamau sy'n rhesymol yn yr holl amgylchiadau i sicrhau y bodlonir anghenion anifail y mae'n gyfrifol amdano, i'r graddau sy'n ofynnol ar gyfer arfer da.

Yn adran 9(2) dywedir:

At ddibenion y Ddeddf hon, rhaid cymryd bod anghenion anifail yn cynnwys-

- a. ei angen am amgylchedd addas;
- b. ei angen am ddiet addas;
- c. ei angen i allu arddangos patrymau ymddygiad normal;
- d. unrhyw angen sydd arno i gael ei letya gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân i anifeiliaid eraill; ac
- e. ei angen i gael ei amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefydau.

Mae cyfreithiau eraill hefyd yn gymwys, ynglŷn â materion megis cynllunio, cofrestru, rheolaethau ar feddyginiaethau, gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid, a chludo anifeiliaid. Mae dyletswydd ar bawb sy'n ymwneud â chynhyrchu a magu adar i ymgyswrtu a chydymffurfio â'r cyfreithiau a'r codau perthnasol.

Mae'r Cod hwn yn gymwys o ran Cymru. Cynhwysir y pwerau i wneud a chyhoeddi'r Cod yn adrannau 14 ac 16 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae'r pwerau hynny yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

CYHOEDDWDYD Y COD LLES HWN AR 1 IONAWR 2011.

Cyflwyniad

Mae'r Cod Ymarfer hwn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn cyfeirio at yr holl adar sy'n cael eu bridio a'u magu dan amodau rheoledig at y diben o'u rhyddhau i'w saethu gan helwyr, ynghyd ag adar a gedwir at ddibenion bridio. Cynghorir yr holl bersonél sy'n ymwneud â rheoli a hwsmona adar hela i ymgyswddo ag egwyddorion a chynnwys y Cod hwn, i'r graddau y maent yn berthnasol i'w tasgau a'u dyletswyddau penodol.

Pa bynnag rywogaethau a gynhyrchir neu a fegir, a pha bynnag ddulliau a ddefnyddir, yr egwyddor drosfwaol, a ddylai fod yn ganllaw i bawb, yw y dylid rhoi pob ystyriaeth i iechyd a lles yr adar dan sylw. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am yr adar, felly, fod yn wybodus a chymwys ym maes hwsmonaeth adar hela a'r technegau a ddefnyddir i'w rheoli. Er mwyn gwireddu hynny, mae dyletswydd ar y perchnogion a'r ceidwaid i sicrhau lles yr adar, yn unol â'r 'pum angen' y manylir arnynt yn Adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

Rhaid i'r adar, felly, gael:

1. amgylchedd sy'n addas i'w rhywogaeth, eu hoed a'r pwrpas y'u cedwir ar ei gyfer, gan gynnwys gwres, goleuni, lloches, awyru a mannau gorffwys digonol;
2. mynediad hwylus at ddŵr ffres a diet priodol i gynnal eu twf, eu hiechyd a'u hegri;
3. gofod a chyfleusterau priodol i osgoi straen a chaniatáu iddynt arddangos patrymau ymddygiad normal;
4. cwmni adar eraill o'r un math, fel sy'n briodol i'r rhywogaeth dan sylw; a
5. eu hamddiffyn yn ddigonol rhag poen, dioddefaint, anaf neu glefydau. Os digwydd unrhyw un o'r pethau hyn, mae'n ofynnol ymateb yn gyflym; a dylai'r ymateb gynnwys diagnosis, camau adferol, a phan fo'n briodol, defnydd cywir o feddyginiaeth.

Mae cynnwys y Cod hwn yn berthnasol i adar hyd at, a chan gynnwys, y cyfnod pan gyfyngir hwy o fewn corlannau rhyddhau. Unwaith y bydd yr adar yn cael mynd i mewn ac allan o'r corlannau hyn yn ôl eu dewis, byddant y tu allan i gwmpas y Cod hwn. Cydnabyddir, fodd bynnag, gan mai'r ceidwaid fydd yn parhau'n gyfrifol i raddau am les yr adar yn union ar ôl eu rhyddhau hyd nes byddant wedi llwyr ymgynefino â byw'n rhydd, y bydd rhaid ystyried pa mor addas yw'r amgylchedd y rhyddheir yr adar iddo, o ran bodloni anghenion yr adar.

Argymhellion

1. Tarddiad y stoc

1.1 Dylid cadw cofnod o ffynonellau'r holl wyau deor ac adar, fel y gellir olrhain eu tarddiad os bydd angen.

1.2 Pan fo modd, er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo clefydau ac er mwyn hyrwyddo lles, dylid cadw'r stoc dodwy ar wahân, fel haid fridio gaeedig. Os oes rhaid dod ag adar llawn-dwf i mewn, yn enwedig o'r gwyllt, dylid cymryd pob cam posibl i wirio'u hiechyd a'u tarddiad, er enghraifft, drwy eu cymysgu â rhai adar sentinel, ar wahân i'r haid bresennol, mewn da bryd cyn iddynt ymuno â'r haid. Os gwelir eu bod yn iach, gellir ychwanegu'r adar hyn a ddygir i mewn at yr haid cyn dechrau'r tymor bridio.

2. Gori a deor

2.1 Er mwyn osgoi trosglwyddo clefydau, dylid gwahanu adeilad y ddeorfa, yn ffisegol ac yn weithredol, oddi wrth unrhyw gyfleusterau magu. Dylai cynllun ffisegol y safle ganiatáu i'r gweithrediadau canlynol gael eu cadw ar wahân:

- a. storio wyau;
- b. gori ar wyau;
- c. deor;
- d. paratoi a llwytho cywion ac adar ifanc ar gyfer eu hanfon allan.

2.2 Dylid diogelu adeiladau rhag mynediad iddynt gan adar gwyllt, cnofilod a phryfed, sydd i gyd yn gludwyr clefydau posibl.

2.3 Dylai'r muriau a'r lloriau fod wedi eu gwneud o ddeunyddiau caled, anhydraidd a golchadwy yn unol ag arferion bioddiogelwch da. Dylai'r lloriau fod yn draenio'n dda.

2.4 Dylai unrhyw oleuni naturiol neu artiffisial, y llif aer a'r tymheredd fod yn addas ar gyfer y gweithrediadau a ymgwymerir.

2.5 Dylid casglu'r wyau o leiaf unwaith bob diwrnod, a dylid eu glanhau a'u diheintio cyn gynted ag y bo modd.

2.6 Dylid cytuno ar raglen hylendid barhaus ar gyfer y ddeorfa a dylai'r holl bersonél a phob ymwelydd wisgo dillad diogelwch priodol.

2.7 Dylid cadw'r adeiladau a'r holl gyfarpar mewn cyflwr da.

2.8 Dylid diheintio neu fygdarthu'r canlynol:

- a. yr wyau rhwng eu casglu a gori arnynt;

- b. yr unedau gori yn rheolaidd;
- c. yr unedau deor a'r cyfarpar ar ôl pob deoriad.

2.9 Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo clefydau, dylid osgoi deor yn ôl gofynion cwsmeriaid (deor wyau o heidiau allanol) os yw'n bosibl.

3. Archwilio a hwsmona

3.1 Ni ddylid gafael mewn adar hela os nad yw'n gwbl angenrheidiol; gan eu bod yn rhywogaethau sydd heb eu dofi, gallant fod yn fwy tueddol o ddioddef straen, o gymharu â dofednod dof a ffermir. Pan fo rhaid gafael ynddynt, dylid gwneud hynny mewn ffordd briodol.

3.2 Dylid cynllunio a rheoli'r adeilad bridio neu fagu neu'r system gorlannau mewn ffordd sy'n lleihau ymddygiad ymosodol o fewn yr haid. Gellir cyflawni hyn drwy ddarparu rhwystrau ffisegol a rhwystrau rhag gweld, mannau crafu, clwydi a chuddfannau o fewn y corlannau, ynghyd â dulliau eraill o gyfoethogi'r amgylchedd.

3.3 Dylai pob un sy'n bridio neu'n magu adar hela gofrestru gyda phractis milfeddygol, fel y gellir delio ag unrhyw broblemau lles, clefyd neu anafiadau sy'n galw am sylw. Dylid gofyn am gyngor gan filfeddyg neu berson cymwysedig priodol arall pan fo angen, er enghraifft os nad yw'n amlwg beth sy'n achosi unrhyw broblem, neu os yw triniaeth a ddefnyddiwyd wedi methu â datrys problem. Dylai'r staff fod yn ddigon gwybodus i adnabod ymddygiad normal ac i sylwi ar unrhyw arwyddion cynnar o ymddygiad annormal sy'n gysylltiedig ag anaf neu glefyd.

3.4 Mae'n arfer da paratoi cynllun iechyd a lles ar gyfer yr haid, a'i adolygu yn flynyddol ar y cyd â'ch milfeddyg.

3.5 Er mwyn atal clefydau mae arfer bioddiogelwch cadarn yn hanfodol gan ddefnyddio diheintyddion priodol yn unol â'r cyfraddau teneuedig cywir. I wella bioddiogelwch, dylid gosod baddonau traed sy'n cynnwys diheintydd ym mhob prif fynedfa i'r uned, a dylid eu hadnewyddu'n rheolaidd. Rhaid defnyddio diheintyddion gan ystyried diogelwch yr adar. Dylai'r staff, ac unrhyw ymwelwyr, fod yn ymwybodol o'r angen i wisgo esgidiau a dillad diogelwch addas, a dylent ddefnyddio'r baddonau traed. Dylai ceidwaid gadw cofnod o bob ymwelydd â'r safle.

3.6 Dylid archwilio pob aderyn sy'n cyrraedd y safle am arwyddion o ymddygiad annormal sy'n gysylltiedig ag anaf neu glefyd. Dylai wyau gael eu gwirio, eu glanhau, eu golchi a'u mygdarthu fel y bo angen. Os sylwir ar unrhyw broblemau, dylid cymryd camau adferol priodol.

3.7 Yn ystod y cyfnod bridio a magu, dylid gwirio'r adar o leiaf ddwywaith bob diwrnod am arwyddion o glefyd neu anaf ac i sicrhau y bodlonir eu hanghenion lles; a dylid eu gwirio o leiaf unwaith bob diwrnod ar adegau eraill. Dylai gwiriadau o'r fath gael eu gwneud gan staff gwybodus. Rhaid rhoi sylw priodol ar unwaith i unrhyw adar sy'n dioddef oherwydd salwch, anaf neu fethiant unrhyw gyfarpar, gan gynnwys galw milfeddyg pan fo angen. Mewn achosion pan fo ewthanasia yn angenrheidiol,

rhaid cyflawni hynny'n drugarog gan aelodau o'r staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.

3.8 Rhaid diogelu'r holl adar yn ddigonol rhag ysglyfaethwyr. Rhaid i'r dulliau a ddefnyddir gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Dylid gwneud trefniadau i reoli plâu er mwyn sicrhau iechyd a lles yr adar.

3.9 Dylai fod cynllun wrth gefn wedi ei baratoi, ar gyfer atal neu ymateb i argyfyngau megis tân, llifogydd, difrod storm, toriadau mewn cyflenwadau neu glefyd hysbysadwy. Dylai manylion y gweithdrefnau argyfwng hyn gael eu harddangos ar Hysbysfwrdd Gweithredu Mewn Argyfwng, mewn lleoliad amlwg, ynghyd â rhifau teleffon y gwasanaethau argyfwng, a lleoliad yr uned ac unrhyw ffynonellau dŵr lleol.

4. Bwyd a dŵr

4.1 Rhaid i'r holl adar hela a gorlennir gael mynediad drwy gydol yr amser at gyflenwadau digonol o ddŵr yfed ffres a glân oni bai bod milfeddyg yn cynghori'n wahanol. Dylai'r offer yfed a ddarperir ganiatáu digon o le i'r adar gyrraedd y dŵr, gyda chyn lleied ag y bo modd o ymyrraeth ac o gystadlu ag adar eraill. Rhaid gwneud darpariaeth i gyflenwi dŵr yfed pan fo'r tywydd yn rhewllyd, ac mewn unrhyw amgylchiadau eraill pan gyfyngir ar y cyflenwad.

4.2 Os nad oes cyflenwad naturiol ar gael, dylid darparu meintiau digonol o raeon annhoddadwy o'r maint a'r math cywir i gynorthwyo'r adar i dreulio'u bwyd.

4.3 Rhaid i'r holl adar a gedwir yn gaeth gael diet sy'n gytbwys o ran maeth. Dylai pob bwyd a roddir fod o'r maint gronynnol cywir ac o'r math priodol ar gyfer oedran a rhywogaeth yr adar, er mwyn eu cadw'n iach a bodloni eu hanghenion o ran maeth ac arferion chwilota.

4.4 Dylai unrhyw newid a wneir yn eu diet ddigwydd yn raddol, ac mae defnyddio cymysgedd o ddau fath o borthiant dros gyfnod o amser yn arfer da.

4.5 Dylai'r ddarpariaeth o offer bwydo ganiatáu i'r adar gyrraedd at ddigon o'r bwyd gyda'r lleiafswm o gystadlu ag adar eraill.

4.6 Dylai pob grawn a ddarperir fod o ansawdd da, heb ei halogi'n amlwg gan anifeiliaid neu gemegion, neu halogiad microbiolegol megis llwydni.

4.7 Dylid storio pob bwyd yn unol ag arferion da, a'i ddefnyddio'n brydlon er mwyn sicrhau na fydd wedi dirywio. Dylid glanhau pob cynhwysydd, bin a cherbyd yn rheolaidd.

5. Dyfeisiau rheoli

5.1 Ni ddylid ystyried defnyddio'n rheolaidd unrhyw ddyfais neu arfer rheoli sy'n cyfyngu ar allu adar i gyflawni eu hamrediad llawn o ymddygiadau normal; a dylai ceidwaid yr adar weithio tuag at y ddelfryd o systemau rheoli nad oes arnynt angen dyfeisiau o'r fath. Ymhlith dyfeisiau ac arferion o'r fath mae anffurfiadau megis tocio

pigau; gweithdrefnau i atal neu gyfyngu ar hedfan, megis crych-rwymo (gosod rhwymyn ar adain i atal ei hymestyn), tocio plu hedfan ansensitif; neu ddefnyddio genfâu, sbectolau a mygydau i rwystro adar rhag pigo plu, bwyta wyau neu ymosod ar ei gilydd. Dylid cyfiawnhau defnyddio'r rhain yn ôl amgylchiadau'r haid dan sylw, a dylid adolygu'r defnydd ohonynt yn rheolaidd, yn rhan o gynllun iechyd a lles yr haid. Mae unrhyw ddyfais a gynlluniwyd i dyllu trwy'r septwm trwynol yn anghyfreithlon.

5.2 Dylai bridwyr a magwyr adar, a'r rhai a gyflogir ganddynt, fod yn ddigon gwybodus a galluog i arddangos lefelau cymhwysedd priodol wrth reoli a hwsmona adar. Ni ddylid aberthu lles yr adar er mwyn cyflymder gweithredol wrth osod dyfeisiau rheoli.

5.3 Mae defnyddio genfâu mewn ffesantod ifanc am gyfnodau byr (rhwng 3 a 7 wythnos) i atal ymddygiad niweidiol yn arferiad y dylid ei gyfiawnhau a'i fonitro'n fanwl ar bob sail. Dylai'r genfâu fod wedi eu gwneud o ddeunydd sy'n addas ar gyfer maint ac oedran yr aderyn; ac ni ddylai neb eu gosod na'u tynnu, ac eithrio stocmyn profiadol a hyfforddwyd yn briodol.

5.4 Yn gyffredinol, dylid peidio â defnyddio genfâu 'Bumpa' ac eithrio fel ymateb i angen penodol ar ôl ymgynghori â milfeddyg, a hynny gyda gofal arbennig yn unig.

5.5 Yn gyffredinol, ni ddylid tocio pigau adar hela, ac eithrio mewn amgylchiadau pan fo'r angen i ddiogelu lles yr adar yn gorlethu pob ystyriaeth arall.

5.6 Gall 'sbectol' blastig, a osodir ar y pig i atal yr aderyn rhag pigo plu neu fwyta wyau, achosi difrod sylweddol i'r septwm trwynol; ac yn gyffredinol, ni ddylid eu defnyddio ac eithrio fel ymateb i angen penodol ar ôl ymgynghori â milfeddyg. Mae unrhyw fath o ddyfais a gynlluniwyd i dyllu trwy'r septwm trwynol yn anghyfreithlon ar gyfer adar.

5.7 Yn gyffredinol, ni ddylid defnyddio mygydau neu orchuddion fel dull o reoli adar.

5.8 Gellir tocio prif blu allanol er mwyn cyfyngu ar hedfan, ond rhaid osgoi tocio plu sy'n tyfu ('plu gwaed') os yw'n ymyrryd â meinwe sensitif, oherwydd ystyrir hynny yn gyfystyr ag anffurfio.

5.9 Mae crych-rwymo un adain i gyfyngu ar hedfan yn ddull na ddylid ei ddefnyddio ac eithrio gan, neu o dan ofal, gweithredwr medrus, a hynny gyda gofal eithafol; a dylid defnyddio rhwymynnau sydd o'r maint cywir ar gyfer yr adar dan sylw. Fel rheol, ni fydd angen crych-rwymo ac eithrio mewn corlannau agored. Mewn corlannau caeedig, dylid monitro'r defnydd ohonynt yn fanwl, a'i gyfiawnhau fesul achos unigol. Rhaid tynnu unrhyw grych-rwymyn i ffwrdd cyn rhyddhau'r aderyn.

6. Lletya a chorlannu

6.1 Wrth letya neu gorlannu adar, dylid gwneud hynny mewn llety a adeiladwyd yn gadarn, a reolir yn dda, ac sydd o faint digonol i sicrhau iechyd a lles yr adar. Gellir gwneud hynny orau drwy ddarparu:

- i. dyluniad da, sy'n cynnwys cyfleusterau digonol ar gyfer archwilio'r adar, a'u symud pan fo angen;
- ii. diogelwch rhag effeithiau tywydd garw, tymheredd eithafol o uchel neu isel ac ysglyfaethwyr;
- iii. maint llety, dwyseddau stocio a chyfleusterau priodol, gan gynnwys dulliau priodol o gyfoethogi'r amgylchedd er mwyn sicrhau iechyd a lles yr adar;
- iv. llawr addas ar gyfer y rhywogaeth a gedwir, sydd wedi ei ddylunio i osgoi anafiadau i draed yr adar ac a gedwir rhag cael ei faeddu'n ormodol; a
- v. goleuni, gwres ac awyru digonol. Dylai'r goleuo fod yn ddigonol ar gyfer archwilio'r adar yn rhwydd, a dylai fod ar gael unrhyw adeg i archwilio'r adar pe bai angen. Dylai fod cyfleuster ar gyfer pylu unrhyw olau artiffisial sefydlog, er mwyn i'r adar baratoi ar gyfer tywyllwch, a dylid darparu cyfnod tywyll parhaus dros nos o 6 awr o leiaf yn ystod pob cyfnod o 24 awr.

6.2 Dylai fod modd cadw'r llety mewn cyflwr glân a hylan i osgoi'r risg o drosglwyddo clefydau. Ar gyfer llety dros dro, dylid dewis tir glân a lleoliad ymhell oddi wrth ddofednod neu dda byw, a dylai'r llety a'r cyfarpar fod mewn cyflwr da rhag i'r adar gael eu hanafu neu ddianc a'u lladd gan ysglyfaethwyr.

6.3 Dylid lleoli pob llety a chorlan mewn modd a fydd yn lleihau i'r eithaf unrhyw ymyrraeth â'r adar, a dylid darparu libart mewnol ac allanol (pan fo'n briodol) o faint digonol i ganiatáu i'r adar arddangos patrymau ymddygiad normal. Wrth adeiladu corlannau, dylid ystyried pa gyfleusterau i'w cynnwys ar gyfer trin neu afael mewn adar.

6.4 Dylai unrhyw lety a chorlan a ddefnyddir ar gyfer adar dodwy ddarparu lloches ddigonol i bob un o'r adar yn ystod cyfnodau o dywydd garw.

6.5 Pan nad oes deunydd sych naturiol ar gael fel gwasarn, dylid darparu deunydd anwenwynig, anllidus a'i gynnal mewn cyflwr glân a rhydd o gaglau, i ganiatáu i'r adar ymdrochi mewn llwch ac er mwyn amsugno carthion.

6.6 Dylid darparu nifer digonol o glwydi ar gyfer yr adar, fel sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth.

6.7 Dylai pob llety gael ei lanhau a'i ddiheintio rhwng ei ddefnyddio gan wahanol grwpiau o adar.

6.8 Dylai unrhyw fridiwr neu fagwr adar hela sy'n gosod systemau a chyfarpar newydd ystyried a fydd modd eu rheoli ai peidio mewn ffyrdd a fydd yn bodloni holl ofynion y Cod hwn yn llawn. Os na all y systemau newydd, neu'r systemau presennol, wneud hynny, ni ddylid eu defnyddio.

6.9 Os defnyddir nwy i wresogi, mae'n bwysig bod y cyfarpar yn cael gwasanaeth rheolaidd ac yn gweithio'n gywir er mwyn osgoi'r perygl o dân neu ollwng nwyon gwenwynig, ac y cynhelir y tymheredd cywir yn yr unedau gori.

6.10 Dylid gwirio unrhyw systemau awtomatig yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir, a dylai fod system ar gael wrth gefn, rhag i'r system arferol fethu.

6.11 Ni ddylid defnyddio cewyll moel gyda lloriau uchel ar gyfer bridio ffesantod, na chewyll bach moel ar gyfer bridio petris. Dylai pob system ddodwy a ddefnyddir ar gyfer lletya adar gael ei chynllunio a'i rheoli er mwyn sicrhau lles yr adar. Dylai pob system gael ei chyfoethogi'n briodol.

6.12 Dylai ceidwaid adar hela, ynghyd â'u milfeddyg neu gynghorwr priodol arall, ymchwilio i ddulliau cyfoethogi posibl. Dylid darparu manau nythu i adar dodwy, sydd o faint digonol ar gyfer y nifer o adar a letyir.

7. Trin clefydau a chadw cofnodion

7.1 Rhaid i unrhyw aderyn sy'n dioddef o salwch neu wedi ei anafu gael sylw ar unwaith, gan gynnwys sylw gan filfeddyg pan fo'n briodol.

7.2 Ni ddylid defnyddio meddyginiaethau i drin adar, ac eithrio pan fo'n angenrheidiol neu pan bresgripsiynir y feddyginiaeth gan filfeddyg. Ni ddylid defnyddio meddyginiaethau at ddibenion ataliol, ac eithrio pan fo'n briodol ochr yn ochr ag arferion hwsmonaeth dda, neu pan fo'r adar dan ofal milfeddyg sy'n argymhell rhoi cynnyrch meddyginiaethol a bresgripsiynir.

7.3 Dylid cadw cofnodion ar gyfer pob haid, a dal gafael ar y cofnodion am dair blynedd, gan ddangos y manylion canlynol:

- a. tarddiad yr wyau, cywion a stoc bridio a'r dyddiad y cyraeddasant;
- b. niferoedd yr wyau;
- c. deoradwyedd;
- ch. cyrchfannau cywion diwrnod oed, wyau ac adar ifanc;
- d. unrhyw brofion labordy, y canlyniadau ac archwiliadau post mortem; a
- dd. marwolaethau.

Bydd cofnodion o'r fath yn gymorth i adnabod unrhyw broblemau rheoli a hwsmona a'u hachosion, ac i wella iechyd a lles yr haid yn gyffredinol. Byddant hefyd yn ei gwneud yn bosibl olrhain unrhyw achosion o glefyd.

8. Dal a chludo

8.1 Rhaid i bob llwyth a anfonir o'r uned, ac a gludir at ddibenion gweithgarwch economaidd, gydymffurfio â gofynion Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo)

(Cymru) 2007. Dylai ffermwyr adar hela ymgysgu â gofynion y ddeddfwriaeth honno.

8.2 Rhaid cludo adar mewn cynwysyddion: sy'n addas ar gyfer maint a nifer yr adar; nad ydynt yn achosi anafiadau; sy'n ddiogel; yn lân; wedi eu hawyru'n dda; ac yn cysgodi'r adar rhag y tywydd. Ni chaniateir cludo adar mewn sachau.

8.3 Rhaid i'r holl bersonél sy'n ymwneud â dal a chludo adar hela fod yn hyfedr mewn technegau dal a thrafod adar gan achosi cyn lleied ag y bo modd o straeon. Mae dal a chludo gormod o adar ar yr un pryd yn arfer gwael o ran lles yr adar.

8.4 Dylid treulio cyn lleied o amser yn cludo'r adar ag y bo modd, tra'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Yr amser teithio hwyaf a ganiateir yn achos cywion diwrnod oed yw 24 awr, ar yr amod na fydd y cywion yn hŷn na 72 awr oed ar ddiwedd y daith. Yr amser teithio hwyaf a ganiateir yn achos pob aderyn arall yw 12 awr.

8.5 Er mwyn atal clefydau rhag lledaenu a hyrwyddo bioddiogelwch, dylai pob blwch, cawell a cherbyd, pan fo'n briodol, gael ei lanhau a'i ddiheintio'n drwyadl rhwng llwythi, gan ddefnyddio dulliau diheintio priodol.

8.6 Rhaid peidio â chludo unrhyw adar nad ydynt yn iach ar adeg y llwytho.

9. Paratoi ar gyfer rhyddhau

9.1 Ar yr adeg y gwerthir hwy at y diben o'u rhyddhau, dylai'r holl adar hela fod mewn cyflwr iach ac yn ffit i'w cludo, ac wedi ymaddasu ac ymgaedu'n briodol o ran datblygiad eu plu, goddef tywydd, eu diet a'u dull o fwydo. Dylid rhoi archwiliad terfynol i bob aderyn sy'n barod i'w gludo i gorlan ryddhau, cyn ei symud, er mwyn cael sicrwydd ei fod yn ffit i'w ryddhau.

9.2 Dylai'r corlannau rhyddhau gael eu paratoi'n drylwyr cyn i'r adar gyrraedd, drwy sicrhau: eu bod o faint digonol; yn darparu cysgod; ac ar safle sy'n cynnwys y mathau o gyfarpar bwydo ac yfed y mae'r adar eisoes yn gyfarwydd â hwy. Wrth leoli corlannau rhyddhau, dylid ystyried yr angen i leihau'r risg o niwed neu anaf, er enghraifft gan ysglyfaethwyr neu gerbydau.

Deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar adar hela.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.

Gellir dod o hyd i'r ddeddfwriaeth yn www.opsi.gov.uk/acts

Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006 – rhaid i unrhyw un sy'n cadw 50 o adar neu ragor ddarparu manylion am y rhywogaeth o adar, y system hwsmonaeth y cedwir yr adar yn unol â hi, nifer y rhywogaethau a gedwir fel arfer, y nifer sy'n cael mynediad i'r awyr agored, manylion am amrywiadau stocio tymhorol ac unrhyw ddŵr agored gerllaw. Rhaid adrodd am unrhyw leihad neu gynnydd o 20% neu ragor yn y gyfradd stocio.

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 – sy'n gwneud yn ofynnol cadw gwahanol gofnodion ynglŷn â gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid, stoc marw a gwastraff o ddeorfeydd. Yn ychwanegol, rhaid gwaredu gwastraff adar hela a deorfeydd, ar ffurf cywion dros ben, cywion heb eu deor neu embryonau, yn unol â **Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995 a Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006**. Mae'r Cod Ymarfer a gyhoeddir gan y Gymdeithas Lladd Trugarog hefyd yn darparu canllawiau defnyddiol.

Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) (Diwygio) 2008 – Drwy rinwedd y rheoliadau hyn, fel y'u diwygiwyd, eithriwyd yr arfer o dynnu plu hedfan o'r adenydd er mwyn cyfyngu ar hedfan, ynghyd â thagio adenydd, o'r gwaharddiad cyffredinol ar anffurfio yn adran 5 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 – Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu **Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005** (diogelu anifeiliaid yn ystod eu cludo a gweithrediadau perthynol). Cyfeiriwch at y ddeddfwriaeth hon a'r canllawiau cysylltiedig am wybodaeth ynglŷn â chludo.

Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2009 – sy'n gwneud yn ofynnol cadw cofnodion o'r defnydd o feddyginiaethau, a gweinyddu a gwaredu meddyginiaethau nas defnyddir. Rhaid dal gafael ar y cofnodion am o leiaf 5 mlynedd. Rhaid storio a defnyddio meddyginiaethau a thriniaethau milfeddygol yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer cyfredol; a dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr yn ogystal. Rhaid cadw cofnodion o'r holl gynhyrchion meddyginiaethol, a chydymffurfio'n fanwl â'r cyfnodau diddychu, er mwyn dihybsyddu unrhyw weddillion.